HANNER CAN FFAITH AM BOWYS 2017

Gorffennaf 2017

Casgliad o ystadegau allweddol ar gyfer cynllunio strategol Cyngor Sir Powys

50FFAITH17-1-10129-2017-cy

Awdur:
Geraint Morgan
Cyngor Sir Powys
Deallusrwydd Busnes

statistics@powys.gov.uk
01597 826541

http://www.powys.gov.uk/en/statistics/view-statistics-about-your-area/
y man cyntaf i gael gwybodaeth am Bowys, ei phobl a'i lleoedd

HANNER CAN FFAITH AM BOWYS 2017

CYNNWYS

POBLOGAETH 2

TAI AC AELWYDYDD 2

ECONOMI 3

MASNACH, YNNI A DIWYDIANT 3

Y FARCHNAD WAITH 4

TRAFNIDIAETH A THWRISTIAETH 4

TIR AC AMAETHYDDIAETH 5

YR AMGYLCHEDD 5

CYMDEITHASOL A LLES 5

IECHYD 6

ADDYSG 6

DIOGELWCH CYMUNEDOL 6

DEMOCRATIAETH 6

ATODIAD: FFYNONELLAU A NODIADAU 7

Sylwch fod logo Powys-i a'r eiconau themâu ystadegol yn y papur hwn yn gynnyrch Uned Ymchwil a Gwybodaeth Ystadegol Cyngor Sir Powys, i'w defnyddio yng nghyhoeddiadau Powys-i ac Arsyllfa Ddata Powys, cedwir pob hawl.

POBLOGAETH

1. Mae Powys yn cwmpasu chwarter arwynebedd Cymru a hi yw'r sir fwyaf **gwasgaredig ei phoblogaeth** yng Nghymru a Lloegr, gyda dim ond 26 o bobl i bob cilomedr sgwâr ganol 2016, (Cymru 150).
2. 132,160 oedd y boblogaeth a amcangyfrifwyd ar gyfer Powys ganol 2016, sef cynnydd o 0.9% o ganol 2006, (Cymru 4.3%).
3. Roedd 15.0% o drigolion Powys yng nghanol 2016 yn blant **dan 15 oed**, (Cymru 16.8%), 58.7% rhwng **15 a 64 oed**, (Cymru 62.8%), 14.5% rhwng **65 a 74 oed**, (Cymru 11.3%) a 11.8% yn **75 oed a hŷn**, (Cymru 9.1%). 49.1 oedd y **cyfartaledd oed** ym Mhowys yng nghanol 2016 (Cymru 42.4).
4. Roedd 1,089 o **enedigaethau byw** i famau ym Mhowys, a 1,541 o **farwolaethau** wedi'u cofrestru ymhlith trigolion Powys, sef **gostyngiad naturiol net** o 452 o bobl yn ystod blwyddyn calendr 2016, sy'n parhau â thueddiadau'r degawd blaenorol.
5. Amcangyfrifir bod 5,120 o bobl wedi symud i Bowys o weddill y DU a 5,230 wedi symud allan o Bowys i rywle arall yn y DU rhwng canol 2015 a chanol 2016, sef **cynnydd net bychan** o -110 o bobl **yn sgil mudo mewnol**. Fodd bynnag, amcangyfrifir hefyd fod 280 o bobl wedi symud allan o Bowys i leoedd y tu allan i'r DU, yn gymaint â bod 350 o bobl wedi symud i Bowys o dramor, gan arwain at **gynnydd** o -60 **yn sgil mudo rhyngwladol**. Yn gyffredinol gwelwyd **mewnfudo mewnol net** o 50 o bobl rhwng canol 2015 a chanol 2016[1].
6. **Canlyniad net y mudo** rhwng Powys a gweddill y DU yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ganol 2016 oedd bod poblogaeth Powys wedi gweld cynnydd o 60 o blant **dan 5 oed**, 30 o oedolion rhwng **20 a 24 oed** a 320 o oedolion rhwng **50 a 64 oed** ond wedi colli 480 o'r grŵp 'myfyrwyr' rhwng **15** a **19 oed** a 50 o bobl rhwng **25 a 29 oed**[2].
7. Mae **cyfran y bobl 75 oed a hŷn** ym Mhowys wedi cynyddu o 10.9% yng nghanol 2006, (Cymru 8.4%), i 11.8% yng nghanol 2016, (Cymru 9.1%), yn sgil y cynnydd cenedlaethol mewn disgwyliad oes ac allfudiad net grŵp oedran myfyrwyr o Bowys.
8. Yn 2015, cafodd 392 o oedolion o **wledydd tramor** a oedd yn byw ym Mhowys **Rif Yswiriant Cenedlaethol** (NINo) ar y Cynllun Cofnodi Yswiriant Gwladol a Thalu wrth Ennill (NPS), sy'n cyfateb i 0.5% o'r boblogaeth breswyl rhwng 16 a 64 oed, (Cymru 0.7%).
9. Yng nghanol 2014, amcangyfrifwyd fod gan Bowys 47 o breswylwyr rhyngwladol tymor byr (Cymru 3,978), sef trigolion a aned y tu allan i'r DU ac a oedd yn aros yn y DU am rhwng 3 a 12 mis.
10. Yn 2011 amcangyfrifwyd fod 1.6% o drigolion Powys wedi dweud eu bod o **gefndir heb fod yn wyn.** (Cymru 4.4%).
11. Amcangyfrifir y gallai oddeutu 18.6% o drigolion Powys **siarad Cymraeg** yn ôl Cyfrifiad Poblogaeth 2011, (Cymru 19.0%).

TAI AC AELWYDYDD

12. Yn 2011 amcangyfrifwyd bod 58.7% o drigolion Powys yn byw mewn **pentrefi, pentrefannau ac aneddleoedd gwasgaredig**, (Cymru 17.1%).

[1] Llif mudo wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf
[2] Mewnfudo net yn ôl oed, wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf

13. Amcangyfrifir bod 59,138 o **aelwydydd** ym Mhowys yng nghanol 2015, sef **cynnydd yn nifer yr aelwydydd** o 1.2% ers canol 2011, (Cymru 2.2%).
14. Disgynnodd cyfartaledd **maint yr aelwyd** ym Mhowys o 2.24 o bobl ar bob aelwyd yn 2011, (Cymru 2.31), i 2.21 yn 2015, (Cymru 2.29), oherwydd tueddiadau cenedlaethol o well ddisgwyliad oes a mwy o hen bobl yn byw ar eu pennau'u hunain.
15. Amcangyfrifir bod 19,082 (32%) o aelwydydd Powys ganol 2015 yn **unigolion**, (Cymru 419,783 ,32%), 20,940 (35%) yn **ddau oedolyn heb blant**, (415,149 Cymru, 31%) a 4,984 (8%) yn **dri neu fwy o oedolion heb blant**, (134,103 Cymru, 10%). 1,173 (2%) yn '**deuluoedd 'rhiant sengl'**, (37,931 Cymru, 3%) a 10,984 (19%) yn **deuluoedd gyda dau neu fwy o oedolion**, (273,399 Cymru, 21%).
16. Mae Mynegai Prisiau Tai'r Gofrestrfa Tir yn dangos **pris ar gyfartaledd** o £170,246 **ar gyfer tai a werthwyd** ym Mhowys fis Chwefror 2017, (Cymru £145,293), sy'n cynrychioli cynnydd o 4.99% o fis Chwefror 2016, (Cymru Cynnydd o 1.81%).
17. Ym mis Hydref 2013, roedd 21.1% o'r cartrefi ym Mhowys, lle'r oedd eu math o danwydd gwresogi yn hysbys, yn defnyddio **olew** fel eu **prif danwydd gwresogi**, (Cymru 5.7%), a 14.7% o gartrefi ym Mhowys yr oedd eu math o wal wedi'i gofnodi yn cynnwys **waliau solet heb eu hinswleiddio**, (Wales 13.3%).

ECONOMI

18. Cododd dangosydd cenedlaethol y Cyfrifon Gwladol, sef **Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y pen yn ôl y prisiau sylfaenol cyfredol**, ym Mhowys o £16,333 yn 2014, (Cymru £17,517), i £16,972 yn 2015, (Cymru £18,002). Roedd hyn yn gynnydd dros y flwyddyn o 65.8% GYC y DU y pen yn 2014, (Cymru 70.5%), i 66.9% yn 2011, (Cymru 71.0%).
19. Ym mis Awst 2016, roedd 0.8% o bobl Powys 16 oed a hŷn oedd yn hawlio **Cymhorthdal Incwm**, (Cymru 1.6%).
20. Yn 2015 roedd 172 achos newydd o **orchmynion methdaliad** ym Mhowys, sy'n cyfateb i 16.0 achos fesul 10,000 o oedolion 18 oed a hŷn, (Cymru 18.9).
21. Amcangyfrifodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) mai £11,000, (Cymru £11,200), oedd canolrif **incwm o hunangyflogaeth** ymysg trigolion Powys yn y flwyddyn dreth 2014-15, £18,500, (Cymru £20,200) oedd canolrif cyfartaledd yr **incwm o gyflogaeth** a £15,900, (Cymru £15,500) oedd canolrif cyfartaledd yr **incwm trwy bensiynau.**

MASNACH, YNNI A DIWYDIANT

22. Ar ddiwedd 2015 roedd 5,805 o **fusnesau'n weithgar** ym Mhowys, cynnydd net o 1.1% o'r 5,740 busnes oedd yn weithgar ar ddechrau'r flwyddyn, (Cymru 2.8%). **Dechreuwyd** 465 o fusnesau yn 2015, sy'n cyfateb i 8.1% o'r busnesau oedd yn weithgar ar ddechrau'r flwyddyn (Cymru 12.5%). Fodd bynnag, roedd 430 o fusnesau eraill wedi **cau** yn ystod y flwyddyn, sy'n cyfateb i 7.5% o'r busnesau oedd yn weithgar ar ddechrau'r flwyddyn, (Cymru 9.3%)[3].

[3] Nid yw'r ffigyrau o angenrhaid yn gwneud cyfanswm ystyrlon, oherwydd bod cyfrif stoc gweithredol hefyd yn newid wrth i fusnesau ddechrau gweithredu neu fynd yn segur

23. Yn 2015, cyfrannodd **diwydiannau cynhyrchu** 16.7% o gyfanswm y Gwerth Ychwanegol Crynswth y cyfrifon rhanbarthol ar gyfer Powys, (Cymru 20.3%). Cyfrannodd y **diwydiant adeiladu** 7.5%, (Cymru 6.0%).
24. Yn 2014 roedd cyfanswm yr **ynni domestig a ddefnyddiwyd** ym Mhowys yn 96.5 GWh, sy'n cyfateb i gyfradd ddefnyddio o 1.99 KWh yr unigolyn (Cymru 1.81 KWh ppd). Mae hyn yn cynnwys cynnyrch petrolewm, yn enwedig olew gwresogi, a ddefnyddiwyd ar gyfradd o 0.80 KWh yr unigolyn (Cymru 0.25 KWh yr unigolyn) [4].
25. Roedd 73% o'r mentrau yng nghofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR)[5] ar gyfer Powys yn **Ficro Fentrau** oedd yn cyflogi llai na 5 o bobl, (Cymru 62%).

Y FARCHNAD WAITH

26. Ym mis Medi 2015, amcangyfrifwyd bod 9% o weithlu Powys rhwng 16 a 64 oed wedi'u **cyflogi yn y diwydiannau amaethyddiaeth a physgota**, (Cymru 2%), 2% yn y diwydiannau **ynni a dŵr**, (Cymru 2%), 9% mewn **gweithgynhyrchu,** (Cymru 11%), 8% mewn **adeiladu**, (Cymru 7%), 18% mewn **dosbarthu, gwestai a bwytai**, (Cymru 20%), 5% mewn **cludiant a chyfathrebu**, (Cymru 6%), 12% mewn **bancio, cyllid ac yswiriant**, (Cymru 13%), a 31% yn y **sector cyhoeddus**, (Cymru 33%). Roedd y gweddill wedi'u cyflogi o fewn **gwasanaethau eraill**.
27. Canolrif y **cyflog wythnosol gros ar gyfer gwaith llawn amser** ym Mhowys yn 2016 oedd £460, sef cynnydd o 6.5% ar y flwyddyn flaenorol, (Cymru £492, sef cynnydd o 0.1%).
28. Amcangyfrifwyd fod 57.6% o drigolion Powys rhwng 16 a 64 oed ym mis Rhagfyr 2016 mewn **gwaith llawn amser** (Cymru 52.2%), 20.6% mewn **gwaith rhan-amser,** (Cymru 18.8%), 2.4% yn **ddi-waith**[6], (Cymru 3.6%) a 19.6% yn **economaidd anweithgar**, (Cymru 25.2%). Roedd 19.9% yn **hunangyflogedig**, (Cymru 9.2%).
29. Ym mis Mawrth 2017, roedd 0.7% o **bobl ifanc** Powys rhwng 20 a 24 oed yn **ddi-waith** ac yn **hawlio lwfans Ceisio Gwaith (JSA)**, (Cymru 1.4%). Yn gyffredinol, roedd 0.7% o'r holl drigolion rhwng 16 a 64 oed yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, (Cymru 1.6%).

TRAFNIDIAETH A THWRISTIAETH

30. Yn 2015, amcangyfrifwyd bod 48% o drigolion Powys yn byw mewn ardaloedd[7] oedd gyda'r 10% gwaethaf yng Nghymru o ran **mynediad at wasanaethau ar droed neu ar fws**[8] yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
31. Roedd **trafnidiaeth ar y ffyrdd** ym Mhowys yn 2014 yn gyfrifol am 321 cilo-dunnell o **allyriadau carbon deuocsid (CO2) lleol** sy'n cyfateb i 2.4 tunnell o CO2 yr unigolyn, (Cymru 1.9).

---

[4] KWh ppd= oriau cilowat yr unigolyn fesul diwrnod
[5] Cofrestr o'r holl unedau lleol sy'n seiliedig ar TAW a/neu Dalu wrth Ennill yw'r IDBR, ac mae'n cynnwys cyflogaeth mewn amaethyddiaeth yn seiliedig ar ffermydd
[6] Allan o waith ac yn chwilio am waith
[7] Mae'r 'ardaloedd' yma yn cyfeirio at yr "ardaloedd cynnyrch ehangach haen is", sef yr ardaloedd daearyddol bach safonol a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[8] Mae gwasanaethau yn cynnwys: Fferyllfa, Siop Fwyd, Meddygfa, Llyfrgell Gyhoeddus, Swyddfa Bost, Ysgol Gynradd ac Uwchradd, Canolfan Hamdden a Gorsaf Betrol

32. Yn 2015 amcangyfrifwyd bod 3 miliwn o bobl wedi bod ar **ymweliad undydd** â Phowys, a bod 1.2 miliwn o ymwelwyr pellach wedi aros am gyfanswm o 6.6 miliwn o **nosweithiau**. £70 oedd cyfanswm **gwariant tybiedig gan ymwelwyr y dydd**.

TIR AC AMAETHYDDIAETH

33. Mae **arwynebedd Powys** yn 5181 cilomedr sgwâr, gyda 17.2% ohono o fewn **Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**
34. Yn 2015, roedd 4253 km^2 (82.1%) o **dir** ym Mhowys yn cael ei **ffermio**, (Cymru 80.2%). Roedd 74.8% o Bowys yn **laswelltir**, 3.0% yn cael ei ddefnyddio ar gyfer **cnydau a garddwriaeth**, 3.8% yn cael ei ddefnyddio ar gyfer **coetiroedd fferm**[9] a 0.5% ar gyfer **dibenion amaethyddol** eraill.
35. Yn 2012, roedd **defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth** (LULUCF) ym Mhowys yn gyfrifol am **allyriadau lleol** o 378 cilo-dunnell o **CO^2** a **symudiad** 626 cilo-dunnell, sy'n cyfateb i symudiad net o 248 cilo-dunnell, sy'n 21% llai na'r ffigwr o 312 cilo-dunnell ar gyfer symudiad net o CO^2 yn sgil LULUCF yn 2011.

YR AMGYLCHEDD

36. Roedd Powys yn 2014 yn gyfrifol am 869 cilo-dunnell o **allyriadau CO^2 lleol net**[10], sy'n cyfateb i 6.5 **tunnell o CO^2 yr unigolyn, y flwyddyn**, (Cymru 9.3). O'r rhain, **ffynonellau diwydiannol a masnachol** oedd wedi rhyddhau 415 cilo-dunnell o CO^2 a **ffynonellau domestig** oedd wedi rhyddhau 310 cilo-dunnell.
37. Ar gyfartaledd, fe greodd trigolion Powys 0.54 tunnell y pen o wastraff bwrdeistrefol yn 2014/15, (Cymru 0.50). O hwn, cafodd 0.31 tunnell y pen ei anfon i **safleoedd tirlenwi neu losgwyr,** (Cymru 0.28), ac **ailgylchwyd, ailddefnyddiwyd neu gompostiwyd** 0.24 tunnell y pen (Cymru 0.22).
38. Yn 2015, amcangyfrifwyd bod 2% o drigolion Powys yn byw mewn ardaloedd[11] a oedd wedi'u gosod gyda'r 10% gwaethaf yng Nghymru ar gyfer **amgylchedd ffisegol** yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.

CYMDEITHASOL A LLES

39. Ym mis Awst 2016, roedd 5,670 o drigolion Powys, sy'n cyfateb i 4.3% o boblogaeth Powys, yn derbyn **Lwfans Byw i'r Anabl**, (Cymru 5.7%) ac roedd 220 o drigolion Powys yn derbyn **Budd-dal Analluogrwydd / Lwfans Anabledd Difrifol**, sy'n cyfateb i 0.3% o drigolion Powys rhwng 16 a 64 oed, (Cymru 0.4%).
40. Yn 2015, amcangyfrifwyd bod 3.5% o boblogaeth Powys yn byw yn un o'r 20% o ardaloedd gwaethaf yng Nghymru am **amddifadedd lluosog** yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diwygiedig) 2011, (Cymru 19.3%).
41. Amcangyfrifwyd o Arolygon Iechyd Cymru 2014 a 15 fod 18.7% o oedolion Powys dros 16 oed a hŷn yn **ysmygu**, (Cymru 19.9%) a bod 22% yn **goryfed mewn pyliau**[12], (Cymru 24%).

---

[9] Nid yw'n cynnwys tir coedwigaeth masnachol, coetiroedd ar dir comin neu ar dir preifat
[10] Allyriadau net wedi symud allyriadau yn sgil LULUCF, gweler paragraff 35.
[11] Mae'r 'ardaloedd' yma yn cyfeirio at yr "ardaloedd cynnyrch ehangach haen is", sef yr ardaloedd daearyddol bach safonol a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[12] Yfed mwy na dwywaith y canllawiau dyddiol.

IECHYD

42. **Disgwyliad oes adeg geni** tybiedig yn 2013-15 oedd 80.3 mlynedd i ddynion ym Mhowys, (Cymru 78.4), a 83.5 mlynedd i ferched ym Mhowys, (Cymru 82.3).
43. Roedd **cymhareb marwolaethau safonedig**[13] Powys 93% y raddfa ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2015, (Cymru 106%).
44. Amcangyfrifwyd o Arolygon Iechyd Cymru 2014/15 nad oedd 63% o oedolion Powys 16 oed a hŷn yn **bwyta 5 neu fwy o ffrwythau a llysiau y dydd,** (Cymru 68%), nad oedd 61% **yn gwneud digon o weithgaredd corfforol**, (Cymru 69%) a bod 59% **dros bwysau ac yn ordew**, (Cymru 58%).

ADDYSG

45. Yn 2016, roedd gan 43% o oedolion economaidd-weithgar Powys rhwng 16 a 64 oed **gymwysterau NVQ4 neu uwch,** (Cymru 40%), ond doedd gan 6.0% **yr un cymhwyster o gwbl**. (Cymru 5.8%).
46. Llwyddodd 86.6% o ddisgyblion Powys 15 oed i ennill pump neu fwy o **gymwysterau TGAU ar raddau A*-C** neu gymhwyster tebyg ym mlwyddyn academaidd 2015/16, (Cymru 84.0%).

DIOGELWCH CYMUNEDOL

47. Cofnododd yr heddlu ym Mhowys 5563 o **droseddau** yn ystod y flwyddyn yn diweddu mis Rhagfyr 2016, sy'n cyfateb i 41.9 fesul 1,000 o'r boblogaeth, (Cymru 64). O'r rhain, roedd 31.5% yn **droseddau treisgar yn erbyn pobl**, (Cymru 30.0%), a 11.9% yn **fyrgleriaeth**, (Cymru 8.1%).
48. Cafodd 136 o bobl ym Mhowys eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn **damweiniau cerbydau** yn 2015, sy'n cyfateb i 102.5 fesul 100,000 o drigolion, (Cymru 38.3).

DEMOCRATIAETH

49. Roedd 99,987 o drigolion Powys **ar y gofrestr etholiadol** ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a Llywodraeth Leol, ar 1 Rhagfyr, 2015, sy'n cyfateb i 92.8% o'r amcangyfrif o boblogaeth 18 oed a hŷn yn 2015, (Cymru 89.3%).
50. **Pleidleisiodd** 69.6% o'r etholwyr yn etholaeth Sir Drefaldwyn a 73.8% o'r etholwyr yn etholaeth Brycheiniog a Maesyfed yn **Etholiad Cyffredinol**, 2015 (Cymru 65.6%).

[13] Cyfradd Mawrolaethau Safonedig = cyfraddau marwolaethau o'i gymharu â chyfraddau marwolaethau yng Nghymru a Lloegr wedi addasu'r gwahaniaethau yn y strwythur oedran.

Atodiad: Ffynonellau a Nodiadau

POBLOGAETH		
1	Teneurwydd gwasgariad y boblogaeth	Amcangyfrifon Poblogaeth 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) http://tinyurl.com/ONSPop15 Mesuriadau Ardal Safonol y DU http://tinyurl.com/UKSAM
2	Cynnydd yn y boblogaeth	Amcangyfrifon Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol fesul pob blwyddyn unigol o oedran ar gyfer 2001 ymlaen a gyhoeddwyd gan LlC fel ciwb StatsWales (adroddiad 016889) https://statswales.gov.wales/v/CBHN Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2015 y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/ONSPop15
3	Poblogaeth yn ôl grŵp oed	Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/ONSPop15
4	Genedigaethau byw a marwolaethau	Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/ONSPop15
5	Mudo net y DU a Rhyngwladol	Mudo net (canol blwyddyn i ganol blwyddyn) a gofnodwyd yn Amcangyfrifon Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer canol 2016 http://tinyurl.com/ONSPop15
6	Mudo yn y DU yn ôl grwp oed	Amcangyfrifon mewnfudo'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, fesul Awdurdod Lleol ar gyfer Cymru a Lloegr, Canol 2016 http://tinyurl.com/ONSMig2015
7	% yn 75+ oed	Cyfrifwyd o Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2006 a 2016 yn ôl oed ar gyfer Powys a Chymru, cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) fel ciwbiau StatsWales https://tinyurl.com/StatsWalPop
8	Dyraniadau Rhifau Yswiriant Gwladol i bobl o wledydd tramor	Dangosyddion Mudo Ardaloedd Lleol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o gyhoeddiad chwarterol ystadegau Mudo a gyhoeddwyd Awst 2014 http://tinyurl.com/ONSLAMigInd
9	Trigolion tymor byr nad ydynt yn drigolion y DU	Dangosyddion Mudo Ardaloedd Lleol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o gyhoeddiad chwarterol ystadegau Mudo a gyhoeddwyd Awst 2014 http://tinyurl.com/ONSLAMigInd
10	Tarddiad ethnig du ac arall nad yw'n wyn	Cyfrifiad 2011: Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru a Lloegr y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/2011CensusEthnic
11	Y Gymraeg	Cyfrifiad 2011: Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru a Lloegr y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/2011CensusWelshLang
TAI AC AELWYDYDD		
12	Pentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig	Cyfrifiad 2011 Dosbarthiad Trefol-Gwledig y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/2011CensusUrbanRural
13	Amcangyfrifon aelwydydd	Cyfrifiad 2011: Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru a Lloegr y Swyddfa Ystadegau Gwladolhttp://tinyurl.com/ONSCensus2011 Amcangyfrifon Aelwydydd Cymru fesul Awdurdod Lleol, 1991-2015, Cyfarwyddiaeth Ystadegol LlC, ciwb StatsWales (adroddiad 28727) https://statswales.gov.wales/v/CBHg
14	Maint yr aelwyd	Amcangyfrifon Aelwydydd Cymru fesul Awdurdod Lleol, 1991-2015, Cyfarwyddiaeth Ystadegol LlC, ciwb StatsWales https://statswales.gov.wales/v/CBHh

15	Math o aelwyd	Amcangyfrifon Aelwydydd Cymru fesul Awdurdod Lleol, 1991-2015, Cyfarwyddiaeth Ystadegol LlC, ciwb StatsWales https://statswales.gov.wales/v/CBHj
16	Prisiau tai ar gyfartaledd	Prisiau cyfartalog tai wedi'u safoni a'u haddasu ar gyfer gwahanol gyfnodau o'r flwyddyn, cyhoeddwyd ym Mynegai Pris Tai'r Gofrestrfa Tir http://landregistry.data.gov.uk/app/ukhpi/explore
17	Cartrefi 'anodd eu gwresogi'	Cronfa Ddata Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Ar gael am ddim ar-lein i ddalwyr cyfrifon sydd wedi Cofrestru. http://www.energysavingtrust.org.uk/
	YR ECONOMI	
18	GYC	Cyfrifon Cenedlaethol Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer ardaloedd NUTS3 1995-2015 https://tinyurl.com/GVANUTS3
19	Hawlwyr cymhorthdal incwm	Cyfrif hawlwyr cymhorthdal incwm mis Awst 2016 gan Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau (100%). Setiau data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer ardaloedd pob awdurdod lleol ar NOMIS. Dangosir fel % o boblogaeth canol 2015 oedd yn 16 oed a hŷn, gweler 3 uchod. http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/8132.xls
20	Methdalu	Yr Asiantaeth Methdaliadau; gorchmynion methdaliadau yng Nghymru a Lloegr 2002-2015 fel % o'r oedolion 18+ oed o amcangyfrifon poblogaeth canol 2015 yn ôl blwyddyn oed unigol, gweler 3 uchod http://tinyurl.com/RegInsolve2015
21	Incwm	Arolwg o Incymau Personol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn ôl Blwyddyn Dreth, tabl 3.14 incwm a threth yn ôl bwrdeistref ac ardal neu awdurdod unedol http://tinyurl.com/HMRC-spi2015
	MASNACH, YNNI A DIWYDIANT	
22	Busnesau TAW	Genedigaethau, Marwolaethau a Stoc Weithredol o Ddemograffeg Busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2014, tablau 1.1, 2.1 a 3.1 http://tinyurl.com/Busdemog
23	GYC yn ôl Diwydiant	Cyfrifon Cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol (GVA) ar gyfer ardaloedd NUTS3 ar gyfer 1995-2015 http://tinyurl.com/ONSRegionalGVA gweler tabl 3.12 GVA1,2 yn ôl 10 diwydiant (wedi'i gyfyngu i NUTS3 heb eu haddasu) yn seiliedig ar brisiau sylfaenol cyfredol
24	Defnydd o ynni	Adran Ynni a Newid Hinsawdd: ystadegau traul ynni is-genedlaethol http://tinyurl.com/DECCenergysubregion Amcangyfrifon poblogaeth canol 2015, gweler 3 uchod; GVA ar brisiau sylfaenol cyfredol, gweler 18 uchod.
25	Micro-fentrau	Cofrestr Busnes Rhyngadrannol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (IDBR) 2016 http://tinyurl.com/IDBRPow
	Y FARCHNAD WAITH	
26	Cyflogaeth yn ôl y diwydiant	Arolwg Poblogaeth Blynyddol (yr Arolwg o'r Gweithlu gynt) y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a gyhoeddir ar gyfer pob Awdurdod Lleol ar NOMIS. Cyflogaeth yn ôl sector diwydiant SIC2007 http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/9883.xls
27	Tal wythnosol	Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Oriau ac Enillion a gyhoeddir ar NOMIS http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/12153.xls
28	Gwaith	Arolwg Poblogaeth Blynyddol (yr Arolwg o'r Gweithlu gynt) y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a gyhoeddir ar gyfer pob Awdurdod Lleol ar

		NOMIS. Tabl 1 Gweithgarwch economaidd yn ôl oed; Tabl 8 Cyflogaeth yn ôl oed ac amser llawn/rhan amser. http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/9524.xls
29	Lwfans Ceisio Gwaith	Cyfrif y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn ôl oedran ar gyfer Ardaloedd Awdurdodau Lleol, a gyhoeddir ar NOMIS. http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/9879.xls Fel canran o amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer y grŵp oed, gweler 3 uchod
TRAFNIDIAETH		
30	Mynediad at wasanaethau	Llywodraeth Cymru / Uned Ddata Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 a gyhoeddwyd fel ciwb StatsWales, gweler y parth Mynediad at Wasanaethau https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014 Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2015 y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/ONSPop15
31	Allyriadau CO_2 Cludiant	DECC 2014 Ffigyrau Carbon Deuocsid yr Awdurdod Lleol http://tinyurl.com/co2emissionsLA
32	Twristiaeth	Adroddiad STEAM ar gyfer Powys 2015 a gyflenwyd i Gyngor Sir Powys gan GTS Ltd https://tinyurl.com/powSTEAM2015
TIR AC AMAETHYDDIAETH		
33	Arwyneb, PCBB	Arwynebedd Powys fel y cyfrifwyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol o set data Ffiniau'r Arolwg Ordnans, ac eithrio ardaloedd nad ydynt yn fewndir, e.e. blaendraethau. Ardal yn PCBB ym Mhowys o daflen ffeithiau Parc Cenedlaethol Bannau http://tinyurl.com/BBNPfacts
34	Tir amaethyddol, ardaloedd llai ffafredig	Ystadegau Amaethyddol Cymru Llywodraeth Cymru 2015 http://tinyurl.com/WASAS2013 Ardaloedd Llai Ffafredig o'r mapiau GIS y mae LlC yn eu cyflenwi i Gyngor Sir Powys
35	Allyriadau LULUCF CO_2	Ffigyrau Carbon Deuocsid Awdurdodau Lleol DECC, dadansoddiad LULUCF mewn e-bost oddi wrth dîm ystadegau newid hinsawdd DECC.
YR AMGYLCHEDD		
36	Allyriadau CO_2 net	Ffigyrau Carbon Deuocsid Awdurdodau Lleol DECC http://tinyurl.com/co2emissionsLA
37	Compostio ac Ailgylchu	Gwastraff Bwrdeistrefol Awdurdodau Lleol a waredwyd trwy safleoedd tirlenwi neu drwy eu llosgi, ailgylchu/compostio a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru https://statswales.gov.wales/v/CBjF
38	Amgylchedd Ffisegol	Llywodraeth Leol / Uned Ddata Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 a gyhoeddwyd fel ciwb StatsWales, gweler y parth Amgylchedd Ffisegol https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014 Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2015 y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/ONSPop15
CYMDEITHASOL A LLES		
39	Budd-daliadau	Setiau data Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau (100%), Awst 2016 ar gyfer pobl Awdurdod Lleol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar NOMIS. Hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/11249.xls Hawlwyr Budd-dal Analluogrwydd/ Lwfans Anabledd Difrifol http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/11260.xls

40	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)	LlC: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2014 https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014 Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2015 y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://tinyurl.com/ONSPop15
41	Ysmygu ac yfed mewn pyliau	Arolwg Iechyd Cymru LlC 2014-2015 https://tinyurl.com/WelHealthS Tabl 12: Oedolion a adroddodd eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd (oed wedi'i safoni), Tabl 4: Oedolion a adroddodd eu bod wedi gor-yfed ar o leiaf un diwrnod yn y gorffennol (wedi ei safoni yn ôl oed)
	IECHYD	
42	Disgwyliad Oes	Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a gyhoeddir fel Disgwyliad Oes (rhyw, UA, blwyddyn) **https://tinyurl.com/ONSLifeExptan**
43	Cymhareb marwolaethau safonedig	Wedi'u safoni ar gyfer Cymru a Lloegr = 100: Marwolaethau yn ôl Awdurdod Lleol preswylfa arferol, niferoedd a chymarebau marwolaethau safonedig yn ôl rhyw, cofrestriadau 2015 http://tinyurl.com/smrLA-EW
44	Ffrwythau a llysiau, gweithgarwch corfforol, dros bwysau neu ordew	Arolwg Iechyd Cymru LlC 2014-2015 https://tinyurl.com/WelHealthS Tabl 5: Oedolion a adroddodd eu bod wedi bwyta pump neu fwy o ddognau o ffrwythau a llysiau'r diwrnod blaenorol; Tabl 6: Oedolion a adroddodd eu bod wedi bodloni'r canllawiau gweithgaredd corfforol am yr wythnos flaenorol; Tabl 8: Oedolion oedd dros bwysau neu'n ordew.
	ADDYSG	
45	Cymwysterau	Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol am y cyfnod o Ionawr 2016 – Rhagfyr 2016. http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/13770.xlsx
46	TGAU	Cyraeddiadau arholiadau disgyblion 15 oed fesul Awdurdod Lleol, 2015/16 a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru https://tinyurl.com/GCSELA-Wal
	DIOGELWCH CYMUNEDOL	
47	Trosedd	Tabl Troseddau a Gofnodwyd 2015/16 a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://tinyurl.com/WelshRCT
48	Damweiniau wrth Deithio	Data Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru 2015 http://wales.gov.uk/statistics-and-research/road-safety/?lang=en
	DEMOCRATIAETH	
49	Etholaeth	Rhestrau etholwyr LlC o etholwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru (sydd hefyd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r llywodraeth Leol) 1/12/15 yn ôl etholaethau'r cynulliad, a gyhoeddir fel ciwb StatsWales https://statswales.wales.gov.uk/v/BWIV
50	Y Ganran a Bleidleisiodd yn yr Etholiad Cyffredinol	Canlyniadau etholiad cyffredinol 2015 a gyhoeddir gan y BBC ar eu gwefan newyddion; Maldwyn, http://www.bbc.co.uk/news/politics/constituencies/W07000063 Brycheiniog a Maesyfed, http://www.bbc.co.uk/news/politics/constituencies/W07000068 Cymru, http://www.bbc.co.uk/news/election/2015/results/wales